CYNGOR CYMUNED BRITHDIR A LLANFACHRETH

Protocol Datrysiadau

Y Broses Datrysiad

Materion y dylid eu hystyried o dan y broses hon

Cwynion lefel isel am Aelodau, gan gynnwys:

- Mân gwynion gan Aelodau am Aelodau
- Mân gwynion gan Swyddogion am Aelodau
- Aelodau yr honnir iddynt fethu dangos parch ac ystyriaeth i eraill – naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig

Materion na ddylid eu hystyried o dan y broses hon

Mae'r cwynion y mae'n rhaid eu cyfeirio at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cynnwys:

- Cwynion a wneir gan aelod o'r cyhoedd
- Cwynion difrifol – torri'r Cod Ymddygiad/methiant i ddatgelu buddiannau/bwlïo/camddefnyddio swydd neu ymddiriedaeth/torri'r Cod dro ar ôl tro
- Cwynion a wnaed gan y Clerc/Swyddog Priodol
- Cwynion blinderus, maleisus neu wamal
- Cwynion Aelodau am swyddogion, y dylid delio â nhw trwy ddefnyddio proses cwynion mewnol y Cyngor
- Cwynion lefel isel ailadroddus

Y Broses

Y gŵyn

Byddai angen danfon y gŵyn at Glerc/Swyddog Priodol y Cyngor i gynnal didoliad cychwynnol i sicrhau fod y gŵyn ar lefel isel ac na ddylid delio â hi trwy gyflwyno cwyn i'r Ombwdsmon. Felly, os yn briodol, dylai'r Clerc/Swyddog Priodol geisio yn y lle cyntaf i gael datrysiad cynnar i unrhyw anghydfod o'r fath trwy drafod yn anffurfiol gyda'r aelodau unigol dan sylw cyn symud at y broses ddatrys a ddisgrifir isod. Mae'n hollbwysig fod yr aelod 'cyhuddedig' yn cael manylion llawn am y gŵyn yn eu herbyn fel eu bod yn enw cyfiawnder naturiol mewn sefyllfa i baratoi eu hymateb i'r cyhuddiad.

Proses Datrysiad

Rôl Cadeirydd/Is Gadeirydd y Cyngor yn y broses ganlynol yw peidio dyfarnu ar y gŵyn, ond yn hytrach ceisio cael yr Aelodau/swyddogion dan sylw i gytuno sut ellid datrys y mater(ion) mewn ffordd gyfeillgar.

Bydd y Clerc/Swyddog Priodol yn gweithredu'n hwylusydd ar gyfer y broses ddatrys isod.

Os yw'r gŵyn rhwng Aelodau ac eithrio Cadeirydd y Cyngor, bydd y Clerc/Swyddog Priodol a'r Cadeirydd yn cyfarfod yn unigol â'r achwynydd a'r Aelod y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn/herbyn i geisio cael datrysiad y gall pawb gytuno arno.

Os yw'r gŵyn rhwng Aelodau, ac os yw un ohonynt yn Gadeirydd y Cyngor, ond nid yr Is Gadeirydd, bydd y Clerc/Swyddog Priodol a'r Is Gadeirydd yn cyfarfod â'r

achwynydd a'r Aelod y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn/herbyn i geisio cael datrysiad y gall pawb gytuno arno.
Os gwnaed y gŵyn gan swyddog/gweithiwr, ond nid y Clerc/Swyddog Priodol, yn erbyn Aelod ac eithrio Cadeirydd y Cyngor, bydd y Clerc/Swyddog Priodol a Chadeirydd y Cyngor yn cyfarfod â'r swyddog a'r Aelod y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn/herbyn i geisio cael datrysiad y gall pawb gytuno arno.
Os gwnaed y gŵyn gan swyddog/gweithiwr, ond nid y Clerc/Swyddog Priodol, yn erbyn Cadeirydd y Cyngor, bydd y Clerc/Swyddog Priodol ac Is Gadeirydd y Cyngor yn cyfarfod â'r swyddog a'r Cadeirydd i geisio cael datrysiad y gall pawb gytuno arno.
Os gwnaed y gŵyn gan y Clerc/Swyddog Priodol, mae'n debyg mai'r arfer gorau fyddai danfon y gŵyn ymlaen ar ffurf cwyn at yr Ombwdsmon.

Canlyniadau posib y broses
Os ceir cytundeb gan Aelodau a/neu swyddogion yn ystod y Cam hwn nid oes angen cymryd unrhyw gamau eraill.
Os na ellir cael cytundeb byddai gan yr Aelod/swyddog a wnaeth y gŵyn y cyfle o hyd i gyfeirio'r mater at yr Ombwdsmon.
Gallai enghreifftiau o gytundebau gynnwys llythyr yn ymddiheuro, addewid neu ymrwymiad ysgrifenedig i beidio torri'r Cod Ymddygiad yn y dyfodol, ymrwymiad i dderbyn hyfforddiant neu gytundeb na ddylid, ar sail y dystiolaeth, cymryd unrhyw gamau pellach ac y dylid cau'r mater.

Amser ar gyfer y broses
Y bwriad yw y gellir cwblhau'r holl brosesau cyn gyflymed ag y bo modd er mwyn datrys y mater. Fodd bynnag, bydd yr union gyfnod o amser yn dibynnu ar argaeledd unigolion i ddod i'r cyfarfodydd.